WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mehefin 2008

Awdur: John Weston

Cyf: 536A2008

# Adolygiad o'r Trefniadau Craffu o fewn Awdurdodau Tân ac Achub Cymru

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | 4 |
| Gellid datblygu'r dull craffu presennol ymhellach | 5 |
| Argymhellion | 7 |

## Statws y ddogfen hon

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r 'Datganiadau o Gyfrifoldebau' a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, yn atebol i unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

## Crynodeb

1. Nodwyd bod ymgysylltu ag aelodau a chraffu yn risgiau canolig neu uchel ym mhob un o'r tri Awdurdod Tân ac Achub fel rhan o'r ymarfer Asesiad Risg ar y Cyd agoriadol sy'n rhan allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella (Tân). Deallwn y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghori ar graffu gwasanaethau cyhoeddus ehangach yn ddiweddarach eleni. O ganlyniad, cyfeiria 'craffu' yn yr adroddiad hwn at graffu mewnol ar benderfyniadau a pherfformiad gan aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub, ac nid yw'n cynnwys cyfraniad yr Awdurdod Tân ac Achub at graffu mwy ffurfiol ar y gwasanaethau cyhoeddus ehangach yng Nghymru, er enghraifft drwy Fyrddau Gwasanaethau Lleol neu'r awdurdodau lleol y daw aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub ohonynt.
2. Nid yw ymgysylltu ag aelodau a chraffu mor ddatblygedig mewn Awdurdodau Tân ac Achub ag y mae mewn awdurdodau lleol. Ceir lle i ddatblygu'r strwythurau a'r gweithdrefnau presennol ymhellach, yn benodol, i ddatblygu perchenogaeth aelodau o benderfyniadau strategol allweddol ac i ddarparu'r wybodaeth gywir i alluogi gwaith craffu effeithiol. Ceir lle hefyd i wella'r broses o ddethol materion i aelodau graffu arnynt a datblygu cyd-ddealltwriaeth gliriach o rôl graffu bosibl aelodau yng nghyd-destun yr Awdurdod Tân ac Achub.
3. Yn amlwg, ceir cyfleoedd i rannu syniadau ac arfer da o ran ymgysylltu ag aelodau a chraffu yng Nghymru a thu hwnt. O ganlyniad, ystyriodd y prosiect hwn waith ymgysylltu ag aelodau a chraffu yn y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru, gan gyfeirio at y sefyllfa yn Lloegr. Ochr yn ochr â'r adroddiad lleol hwn, rydym wedi datblygu adroddiad arfer da ar ymgysylltu ag aelodau a chraffu mewn awdurdodau tân ac achub.
4. Gwnaethom ystyried p'un a all Awdurdodau Tân ac Achub ddysgu gwersi er mwyn cynnwys aelodau yn fwy effeithiol mewn gwaith craffu ac wrth wneud penderfyniadau strategol. Gwnaethom drefnu grwpiau ffocws a dosbarthwyd holiadur i bob aelod ac uwch swyddog.
5. Dengys ein canfyddiadau y gellid gwella dull craffu presennol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ymhellach gyda lle i wella eglurder a'r graddau y caiff aelodau eu cynnwys yn y broses graffu. Mae'r trefniadau presennol yn adlewyrchu datblygiadau diweddar sy'n cynnwys sefydlu Panel Gweithredol ar wahân. Er bod yr egwyddor o Banel Gweithredol yn gadarn, nid oes proses glir eto ar gyfer craffu ar benderfyniadau a cheir risg o wrthdaro posibl rhwng y Panel a'r Awdurdod Tân ac Achub llawn gan y gall aelodau nad ydynt yn rhan o'r Panel Gweithredol deimlo nad ydynt yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Gall hyn arwain at benderfyniadau hwyr neu wrthdaro.
6. Yn unol â'r ddau Awdurdod Tân ac Achub arall yng Nghymru, mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ceisio ennill Siarter yr Aelodau a weithredir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Ei diben yw datblygu rôl Aelodau ac mae'r broses ymgeisio yn cynnwys arfarnu perfformiad Aelodau, yn enwedig yr Aelodau hynny a benodwyd fel Cadeiryddion pwyllgorau. Caiff hyn ei ystyried yn gyfle i ddatblygu ymhellach rôl ac effeithiolrwydd gwaith craffu.

## Gellid datblygu'r dull craffu presennol ymhellach

7. Mae pwyllgor llawn yr Awdurdod Tân ac Achub yn cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn; fe'i ategir gan Bwyllgor Safonau, sydd â'r brif rôl o adolygu materion o ran y cod ymddygiad; mae'n rhaid i'r Pwyllgor Safonau gyfarfod unwaith y flwyddyn, ond mae'n ceisio cyfarfod dwywaith y flwyddyn neu'n fwy aml os oes angen.

8. Mae hefyd gan yr Awdurdod Tân ac Achub Banel Gweithredol (y Panel) sy'n cyfarfod yn ystod y cyfnodau interim rhwng cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub. Mae gan y Panel 14 o aelodau, dau o bob Awdurdod cyfansoddol a Chadeirydd ac Is-Gadeirydd. Ei rôl yw ystyried materion a gyfeirir ato gan yr Awdurdod Tân ac Achub a gwneud argymhellion ar y materion hynny. Mae hefyd yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân o ran y strategaethau a'r polisïau allweddol, yn cynnwys y Cynllun Lleihau Risg. Mae ei gylch gorchwyl yn cynnwys rôl gweithredu fel Pwyllgor Archwilio'r Awdurdod Tân ac Achub.

9. Dywedodd Aelodau wrthym fod math o graffu yn digwydd drwy'r Panel Gweithredol: holir swyddogion pan gaiff newidiadau polisi neu wasanaeth eu cynnig, ond mae hyn yn digwydd mewn ffordd anstrwythuredig, heb ddefnyddio unrhyw bwerau craffu megis 'galw i mewn' na barn arbenigwyr allanol. At hynny, nid yw Aelodau nad ydynt yn rhan o'r Panel yn cael cyfle i holi swyddogion nac i herio'r penderfyniadau a wnaed ymhellach.

10. Ceir enghreifftiau lle mae'r strwythur wedi cynhyrchu gwrthdaro a phroblemau posibl lle nad yw Aelodau a swyddogion wedi cytuno ar y ffordd ymlaen, er enghraifft yr ystyriaethau diweddar o ran lleoliad offer 'rôl ddeuol', ynghyd â'r anawsterau i gytuno ar gyllideb yr Awdurdod a'r Cynllun Gweithredu Lleihau Risg. Daeth hyn i'w anterth yn y Cyfarfod Cyffredinol Arbennig ym mis Rhagfyr 2007 lle, yn ystod trafodaeth am fuddsoddiad mewn gweithgarwch diogelwch tân cymunedol, 'Atgoffwyd Aelodau gan y Clerc, fel yr oedd wedi pwysleisio yng nghyfarfod blaenorol yr Awdurdod, fod angen i'r Awdurdod ddechrau gwneud penderfyniadau anodd'.

11. Roedd yr Aelodau a'r uwch swyddogion a gymerodd ran yn y grŵp ffocws yn ymwybodol iawn o'r angen am drefniadau craffu effeithiol, ond cytunwyd, fel un gwasanaeth, nad oedd gan yr Awdurdod Tân ac Achub yr adnoddau i gopïo model yr Awdurdod Lleol. Mae Aelodau wedi cael rhywfaint o hyfforddiant ar eu rolau o fewn yr Awdurdod Tân ac Achub ond nid ar graffu yn benodol; ar hyn o bryd, mae eu gwybodaeth a'u profiad o graffu yn tueddu i ddod o'u rolau o fewn yr awdurdodau lleol cyfansoddol.

12. Mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn ystyried rôl Aelodau ar hyn o bryd, gan ystyried datblygu 'hyrwyddwyr' i gynrychioli materion amrywiol. Roedd adroddiad i'r Awdurdod Tân ac Achub yn cynnwys argymhelliad i gynnal hunanasesiad yn erbyn meini prawf 'Breinlen Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau o fewn Awdurdodau Tân ac Achub' Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac i ystyried llofnodi Datganiadau o Fwriad ym mis Mawrth 2008.

13. Fodd bynnag, roedd Aelodau a oedd yn mynychu'r grŵp ffocws o'r farn y gellid gwella trefniadau i graffu ar benderfyniadau i sicrhau gwell tryloywder a mwy o gyfranogiad gan yr aelodau hynny nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Pwyllgor Gweithredol. Ar hyn o bryd, o gyfanswm o 28 o Aelodau, dim ond 14 sy'n gwasanaethu ar y Panel; felly, ceir risg bod y 14 o aelodau eraill wedi ymddieithrio o'r broses o wneud penderfyniadau gweithredol ac nad ydynt yn cael cyfle digonol i graffu ar benderfyniadau. Nid yw Aelodau anweithredol yn cael unrhyw hyfforddiant datblygu ychwaith a fyddai'n eu helpu i ddatblygu gwybodaeth o'r materion presennol sy'n wynebu'r Awdurdod.

14. Ceir rhai amheuon hefyd o ran pa mor effeithiol y mae'r Panel Gweithredol yn gweithredu oherwydd ei faint. Awgrymodd Clerc blaenorol yr Awdurdod y gall fod gan yr Awdurdod ormod o Aelodau oherwydd newidiadau ym maint cymharol yr etholwyr ers y penderfynwyd ar ffurf bresennol yr Awdurdod. Awgrymodd hefyd y gallai fod angen adolygu maint y Panel Gweithredol ac y byddai dyrannu seddau'r Panel Gweithredol i bob Cyngor yn fanteisiol. Gallai hyn awgrymu y byddai adolygiad ehangach o aelodaeth yr Awdurdod, ei is-bwyllgorau a'i drefniadau llywodraethu cyffredinol, yn fanteisiol.

15. Yn ogystal mynegodd aelodau'r grŵp ffocws farn y dylai Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ddatblygu ei ddull craffu ei hun, gan fod rhaid i'r 3 gwasanaeth yng Nghymru ymateb i bwysau, strwythurau sefydliadol a dulliau gwahanol. Er enghraifft, ar hyn o bryd nid oes cysylltiadau cryf â grwpiau gwleidyddol ymysg Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub a byddai'n rhaid ystyried hyn wrth sefydlu unrhyw weithgareddau craffu. Yn ogystal, mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn gweithio i wella'i weithdrefnau monitro a ddylai helpu i fod yn sail unrhyw weithgareddau craffu yn y dyfodol.

16. Cafwyd ymatebion i'n harolwg oddi wrth bob uwch swyddog, ond dim ond pum Aelod a ddychwelodd yr holiadur. O ganlyniad, roedd maint y sampl yn rhy fach i ni ddadansoddi'r cwestiynau meintiol. Fodd bynnag, roeddem yn gallu nodi rhai themâu cyffredin yn yr ymatebion a gafwyd, a oedd yn cynnwys pryderon o ran gohirio penderfyniadau anodd neu duedd i ofyn am ragor o wybodaeth yn hytrach na gwneud yr hyn yr oedd rhai yn eu hystyried yn benderfyniadau hollbwysig yn yr hirdymor, a oedd yn gyson â chyfeiriad strategol datganedig yr Awdurdod. Roedd yr ymatebion i'r arolwg hefyd yn cynnwys sylwadau am effeithiolrwydd craffu o fewn yr Awdurdod Tân ac Achub, fel y nodwyd yn Arddangosyn 1, ac yn adlewyrchu pryderon ehangach ynglŷn â'r graddau y gall yr Awdurdod ddarparu cefnogaeth gyson i'w flaenoriaethau strategol. Gallai trefniadau cadarn ar gyfer craffu mwy rhagweithiol, annibynnol, a arweiniwyd gan Aelodau, ar faterion o allweddol â blaenoriaeth, y cyflwynir adroddiad arnynt i'r Awdurdod llawn, helpu Aelodau i deimlo'n fwy hyderus wrth wneud penderfyniadau o'r fath yn y dyfodol. Drwy sefydlu Pwyllgor neu Weithgor lle y gallai Aelodau a swyddogion gydweithio ar feysydd allweddol â blaenoriaeth o'r fath, efallai y gellid osgoi rhai o'r problemau diweddar a gafwyd o ran gwneud penderfyniadau.

**Arddangosyn 1: ceir rhai pryderon o ran gwneud penderfyniadau o yn yr Awdurdod**

- ‘Mae'n amlwg bod angen ar gyfer trefniadau craffu ar wahân.’
- ‘Nid oes gweithgarwch craffu effeithiol ar waith.’
- ‘Yn fy marn i, mae Swyddogion yn cael eu rhwystro drwy ohirio a diwygio parhaus fel modd o oedi gan Aelodau sy'n ymddangos yn amharod i wneud penderfyniadau anodd a allai effeithio ar eu poblogrwydd, yn hytrach na gwneud yr hyn sy'n ‘gywir’ ar gyfer yr Awdurdod.’
- ‘Mae'r strwythur presennol yn caniatáu gormod o ohirio gan arwain at oedi. Gall sylw'r Panel Gweithredol gael ei dynnu gan fân faterion, ac ni chaniateir digon o amser ar gyfer materion pwysig iawn sy'n arwain at benderfyniadau gwael.’

Gwnaed sylwadau hefyd o ran canlyniadau posibl diffyg craffu:

- ‘Yn aml ymddengys bod aelodau'n cael trafferth i ymdrin â blaenoriaethau'r Awdurdod Tân ac Achub sy'n gwrthdaro'n achlysurol ag anghenion eu Hawdurdod eu hunain.’
- Ceir ‘amharodrwydd i wneud penderfyniadau anodd, gan ailystyried penderfyniadau yn rhy hawdd. Yn cynnwys penderfyniadau ar faterion cymharol fân.’
- ‘Mae gan y Panel Gweithredol amrywiaeth eang o ddirprwyaethau nad ydynt yn destun unrhyw graffu arall heblaw am yr Awdurdod Tân ac Achub llawn...mae'n bosibl na threulir amser priodol ar rai penderfyniadau pwysig.’

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Aelodau ac uwch swyddogion*

## Argymhellion

17. Rydym yn argymell y dylai'r Awdurdod ystyried:

- adolygiad o faint, gweithrediad ac aelodaeth y Panel Gweithredol;
- datblygu Pwyllgor Archwilio ar wahân a fyddai'n cynnwys yr aelodau hynny nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor Gweithredol;
- creu grwpiau 'Gorchwyl a Gorffen' i archwilio materion/penderfyniadau penodol ac y gallai eu haelodau naill ai gyflwyno adroddiadau i'r Panel Gweithredol neu'n uniongyrchol i'r Awdurdod Tân ac Achub;
- p'un a allai'r Awdurdod Tân ac Achub gael cymorth craffu gan yr awdurdod lleol lle y bo'n briodol.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 20320500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn : 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk